# Curaduron Ifanc Cymru - Canllawiau a Chwestiynau Cyffredin

## Beth yw Curaduron Ifanc Cymru?

Mae Curaduron Ifanc Cymru wedi'i greu gan Anthem i fynd i'r afael â'r diffyg cyfleoedd i bobl ifanc ymwneud â Cherddoriaeth yng Nghymru oherwydd daearyddiaeth ac ynysigrwydd gwledig.

Mae Anthem yn ymroi i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb o ran cerddoriaeth ymhlith pobl ifanc yng Nghymru. Dros y pedair blynedd diwethaf, rydyn ni wedi cynnal ymgynghoriadau gyda dros 140 o bobl ifanc i nodi'r rhwystrau amrywiol i ymwneud â cherddoriaeth. Un o ganfyddiadau arwyddocaol y gwaith ymchwil hwn oedd bod prinder cyfleoedd yn ardaloedd gwledig Cymru wedi cael effaith negyddol ar hunan-barch a datblygiad creadigol pobl ifanc.

Mae daearyddiaeth Cymru yn heriol, ac mae effaith barhaus Covid-19 a'r argyfwng costau byw wedi gwaethygu'r anghydraddoldebau cymdeithasol presennol, yn enwedig mewn ardaloedd o amddifadedd uwch a rhanbarthau mwy anghysbell yng Nghymru lle'r oedd

cyfleoedd a gwasanaethau eisoes wedi'u lleihau'n sylweddol.

Rydyn ni eisiau rhoi i holl bobl ifanc Cymru, waeth beth fo'u cefndir a'u lleoliad daearyddol, y cyfle i ddarganfod cerddoriaeth a'i photensial. Mae'r rhain yn sylfaenol i ddiben craidd Curaduron Ifanc Cymru, ac maen nhw wedi dylanwadu ar ein penderfyniad i ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar bartneriaethau â lleoliadau gwledig.

Drwy brosiect Curaduron Ifanc Cymru, rydyn ni eisiau ysgogi newid yng nghymunedau gwledig Cymru nad ydyn nhw'n cael eu gwasanaethu'n ddigonol a lle mae pobl ifanc yn wynebu diffyg cyfleoedd, caledi ariannol ac ynysigrwydd cymdeithasol. Byddwn yn gwneud hyn drwy roi pŵer yn nwylo pobl ifanc.

## Sut mae Curaduron Ifanc Cymru yn gweithio?

Mae Curaduron Ifanc Cymru yn adeiladu ar brosiect peilot llwyddiannus a grëwyd gan Theatr Brycheiniog yn Aberhonddu yn 2022. Rhoddodd y prosiect hwn gyfleoedd i grŵp o bobl ifanc 11-18 oed i guradu gigs cerddoriaeth, gan arwain at gynnydd o 200% ym mhresenoldeb pobl ifanc yn eu lleoliad. Ar ôl gweld effaith gadarnhaol y peilot ar bobl ifanc a theuluoedd yr ardal, gyda llawer ohonyn nhw wedi mynychu Theatr Brycheiniog am y tro cyntaf, ac

ar arallgyfeirio arlwy rhaglenni cerddoriaeth y lleoliad, mae Anthem bellach yn bwriadu cyflwyno’r model mewn cymunedau gwledig eraill yng Nghymru sy’n wynebu heriau tebyg. Bydd Curaduron Ifanc Cymru yn gweithio gyda thri lleoliad partner ychwanegol, ynghyd â Theatr Brycheiniog, i wella darpariaeth cerddoriaeth ieuenctid a chynulleidfaoedd ifanc mewn pedair cymuned wledig yng Nghymru.

Er y bydd fframwaith y prosiect yn aros yr un fath ar gyfer pob lleoliad partner, byddwn yn gweithio gyda phob un o’r pedwar lleoliad i ganfod nodau pwrpasol sy’n mynd i’r afael ag anghenion penodol y bobl ifanc yn eu cymuned, a sut y gallan nhw fwydo i mewn i gynlluniau datblygu cynulleidfa’r lleoliad lleol a dyheadau'r gymuned ehangach.

## Amcanion Curaduron Ifanc Cymru

Bydd rhaglen Curaduron Ifanc Cymru yn:

- Ymgysylltu â 40 o bobl ifanc 11-18 oed (10 fesul ardal leol) yng nghefn gwlad Cymru ac yn datblygu eu sgiliau er mwyn iddyn nhw gael eu hyfforddi i fod yn Guraduron Ifanc.
- Cynnal 20 o ddigwyddiadau cerddorol (5 ym mhob lleoliad), wedi’u creu gan y Curaduron Ifanc ar gyfer

pobl ifanc yn eu hardaloedd lleol, gan ddarparu cyfleoedd digynsail i brofi cerddoriaeth newydd.

- Dod ag artistiaid ifanc cyfoes o Gymru i ardaloedd gwledig, a thrwy hynny ennyn diddordeb cynulleidfaoedd ifanc newydd a theuluoedd yn y gymuned leol.
- Darparu cyfleoedd perfformio â thâl i hyd at 30 o artistiaid ifanc o Gymru, yn rhai newydd a rhai sydd wedi ennill eu plwyf, mewn ardaloedd na fydden nhw fel arfer yn cael y cyfle i berfformio. Helpu i dyfu eu rhwydweithiau a’u cynulleidfaoedd rhanbarthol y tu allan i'r dinasoedd.
- Cryfhau rhaglenni cerddoriaeth y 4 lleoliad, gan amrywio eu harlwy i bobl ifanc a'u teuluoedd.
- Helpu lleoliadau i ddenu cynulleidfaoedd newydd yn eu cymuned leol, ac i ddysgu am eu diddordebau cerddorol i helpu i lywio rhaglenni yn y dyfodol.
- Rhoi allbwn creadigol i bobl ifanc yn eu cymuned leol, gan annog dinasyddiaeth weithgar a helpu i greu ymdeimlad o berthyn.
- Gwella canlyniadau personol a chymdeithasol ar gyfer pobl ifanc (er enghraifft, mwy o hyder, rhwydweithiau cymdeithasol, sgiliau cyfathrebu, hunan-barch, grym a lles gwell).

Er y bydd y perfformwyr yn cael eu dewis gan y curaduron ifanc, gyda chymorth eu mentoriaid, mae'n bwysig bod

cynrychiolaeth amrywiol ar draws y rhaglen ddigwyddiadau. Rydyn ni’n dymuno darparu cyfleoedd perfformio i artistiaid ifanc sydd â phrofiadau bywyd tebyg. I lawer o bobl ifanc yn y cymunedau gwledig lleol hyn fel Aberhonddu, dyma fydd y tro cyntaf iddyn nhw weld artistiaid sydd wedi tyfu i fyny mewn amgylchiadau tebyg ac sydd wedi cael llwyddiant yn y diwydiant cerddoriaeth. Bydd yr artistiaid hyn yn dod yn esiampl iddyn nhw, a'r gobaith yw y byddan nhw’n cael eu gwahodd i ddychwelyd i berfformio yn y lleoliadau hyn yn y dyfodol.

## Pwy ddylai wneud cais i gymryd rhan ym mhrosiect Curaduron Ifanc Cymru?

Bydd Curaduron Ifanc Cymru yn cael ei oruchwylio gan Anthem a’i gyflwyno mewn partneriaeth â Theatr Brycheiniog a fydd yn gweithio i ledaenu’r hyn a ddysgwyd o’u prosiect peilot, ac yn rhannu cynlluniau’r prosiect â’r tri lleoliad newydd trwy ddiwrnod hyfforddi wyneb yn wyneb a chyfres o 4 gweithdy i’r partneriaid. Bydd y diwrnod hyfforddi a’r gweithdai i bartneriaid yn cael eu cynnal ym mis Medi unwaith y bydd yr holl leoliadau a mentoriaid wedi'u cadarnhau. Bydd Curaduron Ifanc Cymru yn dechrau ym mhob un o’r pedwar lleoliad o fis Hydref, ac yn para am 9 mis.

Rydyn ni’n edrych am geisiadau gan:

- Sefydliadau sy’n gwasanaethu ardaloedd o ynysigrwydd daearyddol ac sy’n gweithio mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru
- Sefydliadau sy'n cynnal digwyddiadau cerddoriaeth ar gyfer eu cymuned leol
- Sefydliadau sy’n gweithio gyda phobl ifanc ar hyn o bryd neu a hoffai weithio gyda phobl ifanc
- Sefydliadau sydd ag angerdd am gynhwysiant a llais ieuenctid

**Ydyn ni’n gymwys i gael cyllid?**

I fod yn gymwys i gael cyllid, rhaid i'ch sefydliad fod yn:

- gweithio mewn ardal o Gymru lle mae pobl ifanc yn wynebu rhwystrau i symud ymlaen oherwydd daearyddiaeth ac yn ddelfrydol yn seiliedig mewn lleoliad gwledig
- meddu ar un o’r strwythurau llywodraethu canlynol a dogfen lywodraethu: Elusen / CIC / CIO / Partneriaeth / Cwmni Cyfyngedig trwy Warant
- meddu ar gyfrif banc yn y Deyrnas Unedig ac yn gallu darparu set o gyfrifon
- meddu ar bolisïau a gweithdrefnau diogelu ac amddiffyn plant perthnasol
- gweithio yng Nghymru

**Beth nad ydyn ni'n ei ariannu?**

- Sefydliadau addysgol - Ysgolion a Cholegau
- Ffioedd dysgu unigol ar gyfer gwersi offerynnol
- Prynu offerynnau neu gyfarpar ac eithrio fel rhan o brosiect mwy sy’n seiliedig ar weithgareddau
- Gweithgareddau cwricwlwm cerddoriaeth i gefnogi cymwysterau TGAU neu Safon Uwch
- Sefydliadau sy'n cael eu hariannu ar hyn o bryd, neu sydd wedi cael eu hariannu'n ddiweddar, gan gronfeydd Youth Music: Incubator neu Recharge. Siaradwch â ni cyn gwneud cais os ydych chi wedi derbyn cyllid gan Youth Music yn ddiweddar
- Gwaith sy’n cael ei ddarparu y tu allan i Gymru
- Ni fydd gwaith sy’n cael ei gynnal mewn lleoliadau sydd ddim yn wledig, a phrosiectau sy'n cael eu cynnal mewn dinasoedd fel Caerdydd, Casnewydd ac Abertawe, yn gymwys

**Beth yw'r meini prawf ar gyfer ariannu?**

Rydyn ni am gefnogi prosiectau sydd:

1. wedi nodi bylchau a heriau i bobl ifanc yn y ffyrdd y gallan nhw gael mynediad at gerddoriaeth am eu bod wedi'u lleoli mewn ardaloedd anghysbell, gwledig yng Nghymru.
2. yn gweithio i chwalu'r rhwystrau hyn.

Bydd eich prosiect yn:

- Recriwtio 10 o bobl ifanc i weithredu fel curaduron cerddoriaeth
- bodloni maes blaenoriaeth allweddol Anthem ar gyfer y prosiect - pobl ifanc yn ymwneud â cherddoriaeth yn profi rhwystrau oherwydd lleoliad daearyddol a bod mewn lleoliad gwledig
- cynnwys cynllun gwerthuso i fyfyrio ar ganlyniadau'r prosiect
- gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau allweddol eraill. Mae'r mathau o bartneriaethau y byddem yn arbennig yn dymuno eu hariannu yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth rhwng sectorau, er enghraifft, rhwng sefydliadau ieuenctid a sefydliadau cerddoriaeth.
- cynnwys elfen gref o lais ieuenctid fel rhan o'r prosiect. Llais ieuenctid yw pan fydd pobl ifanc yn dylanwadu ar sut mae prosiect yn cael ei redeg, er enghraifft, trwy wneud penderfyniadau, siapio sesiynau neu ymgymryd â rolau arwain.

I gael arweiniad ac enghreifftiau o arferion gorau wrth ddatblygu llais ieuenctid cryf, ewch i adnoddau Share The Mic gan Youth Music:
https://express.adobe.com/page/NxWT5kJ6Jk0ft/

**Beth yw hyd Prosiect Curaduron Ifanc?**

Bydd y prosiect yn rhedeg o fis Hydref 2024 tan fis Mehefin 2025. Rydyn ni’n rhagweld y bydd Hydref-Rhagfyr i raddau helaeth yn amser ar gyfer cynllunio a sefydlu gyda'r rhan fwyaf o’r digwyddiadau yn cael eu cynnal rhwng Ionawr-Mai 2025.

**Ar beth allaf i wario'r arian?**

Byddwn yn ariannu costau sy’n deillio’n uniongyrchol o’r prosiect, fel costau staff, ffioedd gweithwyr llawrydd, llogi lleoliad, prynu offer, costau marchnata, costau teithio ac ad-daliad i bobl ifanc fel curaduron ar y prosiect, a thaliad i gerddorion sy’n perfformio yn y digwyddiadau.
Byddwn hefyd yn gwneud cyfraniad tuag at y gorbenion sy'n helpu i gefnogi'r prosiect arfaethedig, fel adnoddau dynol, rhent swyddfa a chyfleustodau, systemau TG, llywodraethu, yswiriant, a ffioedd archwilio, hyd at uchafswm o 10% o gyfanswm costau'r prosiect.

Ni fyddwn yn ariannu gweithgareddau sydd wedi digwydd cyn i chi dderbyn cadarnhad o ddyfarniad y grant, costau ynghlwm wrth wneud eich cais, costau cyfalaf sylweddol, benthyciadau neu daliadau llog, costau TAW y gellir eu hadennill neu weithgareddau sy’n hyrwyddo credoau pleidiol wleidyddol neu grefyddol.

## Cwestiynau Cyffredin

### Pa gymorth a chefnogaeth fydda i'n eu cael i redeg y prosiect hwn?

Bydd ein sefydliad partner, Theatr Brycheiniog, yn cynnal diwrnod hyfforddi wyneb yn wyneb lle byddan nhw’n rhannu’r hyn a ddysgwyd o’u prosiect peilot ac ar wahanol adegau yn ystod y prosiect bydd cyfarfodydd rhwydweithio a dal i fyny gydag Anthem a’n partner, Theatr Brcyheiniog.

### Am faint o gyllid y gallaf wneud cais amdano?
Mae sefydliadau yn gymwys i gael grant o £10,000.

### Beth fydd yn digwydd os byddaf yn aflwyddiannus yn fy nghais?
Os bydd eich cais yn aflwyddiannus, byddwn yn rhoi adborth i chi.

### A oes disgwyl i mi gyrraedd terfynau nifer y geiriau?
Na, ond gofynnwn i chi gynnwys yr holl wybodaeth berthnasol y bydd ei hangen ar ein panel i wneud penderfyniad cwbl wybodus.

### Beth yw hyd prosiect Curaduron Ifanc Cymru?
Bydd y prosiect yn rhedeg o fis Hydref 2024 tan fis Mehefin 2025. Rydyn ni’n rhagweld y bydd Hydref-Rhagfyr

i raddau helaeth yn amser ar gyfer cynllunio a sefydlu gyda'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau yn cael eu cynnal rhwng Ionawr-Mai 2025.

**Beth yw ystod oedran y Curaduron Ifanc rydyn ni'n eu recriwtio i'r prosiect?**

Hoffem i'ch lleoliad weithio gyda phobl ifanc o fewn yr ystod oedran 11-18 oed.

**Y broses os yw'ch cais yn llwyddiannus**

Byddwch yn cael eich cefnogi drwy gydol y rhaglen gan Reolwr Rhaglen Anthem.

Yn gyntaf byddwn yn cyhoeddi cytundeb ariannu a ffurflen gychwynnol ynghylch gofynion y grant i chi eu llenwi. Efallai y byddwn yn gofyn i rai gofynion gael eu bodloni cyn y gallwn wneud penderfyniad terfynol am eich grant. Efallai y bydd angen i chi ddarparu dogfennaeth bellach neu wneud newidiadau i'ch ffurflen gais.

Bydd amserlen dalu yn cael ei darparu ar gyfer eich prosiect, a fydd yn dibynnu ar hyd eich prosiect a swm y grant.

Byddwch yn derbyn taliadau mewn rhandaliadau, gyda 90% o'ch grant ymlaen llaw, a'r 10% sy'n weddill yn cael ei dalu pan fyddwn yn derbyn adroddiad terfynol y prosiect.

Bydd pob ymgeisydd yn dod yn rhan o Rwydwaith Curaduron Ifanc Cymru a fydd yn rhedeg ochr yn ochr â’r gronfa gan ganiatáu i bob lleoliad rannu gwersi, meithrin perthynas ymhlith aelodau’r rhwydwaith ac ar draws y sector ehangach, a meithrin arferion gorau yng Nghymru.

Bydd disgwyl i chi fynychu cyfarfodydd partneriaeth a hyfforddiant, cyflawni'r prosiect o fewn yr amserlen, gweithio gyda'n Rheolwr Rhaglen a chyfrannu at y broses werthuso. Byddem wrth ein bodd petaech yn dathlu'r prosiect ar-lein gan ddiolch i'n cyllidwyr.

**Beth yw'r terfynau amser a'r amserlen?**

Mae'r cylch ariannu hwn yn cau am 5pm ddydd Llun 12 Awst 2024.

Mae’r panel yn cyfarfod ddiwedd mis Awst a dylai’r ymgeiswyr gael gwybod a ydyn nhw wedi bod yn llwyddiannus ym mis Medi 2024.

Byddai angen i unrhyw bartneriaid fod ar gael i ddod i sesiwn hyfforddi wyneb yn wyneb yn Theatr Brycheiniog ar ddiwedd mis Medi, ac mae’r dyddiad i'w gadarnhau.

Bydd 4 cyfarfod partneriaid ar-lein gydag Anthem a Theatr Brycheiniog yn cael eu cynnal ym mis Rhagfyr 2024, Ionawr 2025, Ebrill 2025 a Mehefin 2025.

**Â phwy y gallaf i gysylltu i ofyn cwestiwn?**
I gael rhagor o gyngor a chymorth, cysylltwch â Kofi Acheampong, Rheolwr Rhaglen, ar kofi.acheampong@anthem.wales